# Strategaeth Rheoli Gwastraff Ailgylchu

## Cyngor Caerdydd - Strategaeth Ddrafft Wedi'i Diweddaru 2018-21



GWEITHIO DROS GAERDYDD, GWEITHIO GYDA'N GILYDD

CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD

| CYNNWYS | TUDALEN |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| 1. Trosolwg | 3 |
| 2. Strategaeth Rheoli Gwastraff Ailgylchu Caerdydd | 4 |
| 3. Hysbysu’r Strategaeth Ddrafft Wedi’i Diweddaru | 6 |
| 4. Potensial Perfformiad ac Ailgylchu Caerdydd | 11 |
| 5. Cwblhau’r Materion a Nodwyd yn Strategaeth 2015-18 | 13 |
| 6. Cynyddu’r Gyfradd Ailgylchu: Gweithredu ar gyfer 2018-21 | 15 |
| 7. Risgiau a Heriau | 22 |

# Cyflwyniad

Caerdydd yw un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU. Tra bod y twf hwn yn arwydd o gryfder a chyfnod o gyfle i economi'r ddinas, daw â heriau yn ei sgil hefyd. Bydd yn rhoi pwysau ar seilwaith ffisegol y ddinas - fel ein ffyrdd a'n system drafnidiaeth gyhoeddus - a'n gwasanaethau cyhoeddus. Gyda'r rhagolygon y bydd Caerdydd yn tyfu fwy nag unrhyw Awdurdod Lleol arall yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf, caiff mwy o wastraff ei greu. Nid yn unig y mae angen delio â'r gwastraff hwn yn gynaliadwy, ond mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd gynyddu'r swm y mae'n ei ailgylchu i gwrdd â thargedau ailgylchu statudol, tra'n ymdrin â chasglu gwastraff yn y ffordd fwyaf cost effeithiol bosibl.

Eisoes Caerdydd yw dinas fwyaf blaenllaw Prydain ar gyfer ailgylchu, gyda chyfraddau ailgylchu a chompostio wedi cynyddu o 4% i 58% dros y 15 mlynedd diwethaf. Mae hyn yn cynrychioli cyflawniad pwysig gan breswylwyr y ddinas, ac mae Uchelgais Prifddinas yn egluro ymrwymiad y Weinyddiaeth i gynyddu lefelau ailgylchu, tra'n darparu gwasanaeth casglu gwastraff effeithiol ac effeithlon.

Wrth symud ymlaen, gallai Caerdydd ddod yn un o ddinasoedd ailgylchu mwyaf blaenllaw'r byd pe bai cyfraddau ailgylchu yn cynyddu mwy na 70% erbyn 2025. Yn ymarferol, golyga hyn bod angen i'r Cyngor ailgylchu 20,000 tunnell fetrig arall o wastraff dinesig erbyn 2025 i gwrdd â tharged Llywodraeth y Cynulliad o 70%. Gallai pob tunnell a gollwyd o'r targed gostio £200 mewn dirwyon i'r Cyngor. Os na fydd cyfraddau ailgylchu'r ddinas yn cynyddu, ac yn parhau i fod yn 58%, gallai'r dirwy o ganlyniad hyd at 2025 fod mor uchel â £10m.

Mae'r ddinas mewn sefyllfa dda i ymateb. Mae Strategaeth Rheoli Gwastraff Ailgylchu 2015-18 y Cyngor - sy'n nodi dull y Cyngor o leihau gwastraff a chynyddu cyfleoedd ailddefnyddio ac ailgylchu i breswylwyr a busnesau - wedi cyflawni cynnydd go iawn.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod mwy i'w wneud. Wynebir heriau wrth gynyddu ailgylchu a sicrhau arbedion effeithlonrwydd mewn casglu gwastraff mewn dinas mor fawr ac amrywiol â Chaerdydd. Golyga'r ffaith bod rhaid i'r Cyngor gasglu gwastraff o nifer o wahanol fathau o eiddo - gan gynnwys tai teras, tai aml-feddiannaeth, fflatiau dwysedd canolig a dwysedd uchel - bod dod o hyd i ateb sy'n bodloni anghenion dinasyddion yn ogystal â dyheadau dinas gynaliadwy yn anodd. Ni ellir cael ateb "un-maint-i-bawb", ac mae angen i ni weithio gyda chymunedau i ymdrin â gwastraff a gwella ailgylchu ledled Caerdydd.

Gwyddom hefyd bod cyfraddau ailgylchu yn gyson isel mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas. Mae hon yn her y mae'n rhaid ei chwrdd gyda mwy o gefnogaeth a gwell addysg. Yn fras, mae'r farchnad fyd ar gyfer gwastraff yn newid, sy'n golygu, fel dinas, y bydd rhaid i ni i gyd wneud mwy. Oni bai ein bod yn gwneud hynny, bydd cost ariannol delio â gwastraff yn y ddinas, heb sôn am y gost amgylcheddol fyd-eang, yn bris rhy uchel i'w dalu.

Bydd y strategaeth hon yn chwarae rhan bwysig i'n helpu i gadw strydoedd Caerdydd yn lân. I wneud hyn, bydd staff o bob rhan o'r Cyngor yn gweithio ar draws seilos adrannol a threfniadol, yn integreiddio gwasanaethau, adeiladu partneriaethau newydd a defnyddio technoleg newydd i helpu i gadw strydoedd yn lân, fel rhan o ddull Stryd Gyfan.

Felly, bydd y Strategaeth Rheoli Ailgylchu a Rheoli Gwastraff 2018-2021 ddrafft wedi'i diweddaru yn helpu'r ddinas i gwrdd â'i thargedau ailgylchu, darparu gwasanaeth casglu gwastraff cost-effeithiol ac, yn fwy cyffredinol, i ddelio'n gynaliadwy â gwastraff cartrefi.

**Cyng. Michael Michael**
**Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu ac Amgylchedd**


CARDIFF
CAERDYDD

# 1. Trosolwg

Adolygir Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff y Cyngor bob tair blynedd, gyda'r strategaeth ddiwethaf yn cwmpasu'r cyfnod 2015-18.

Hysbysir y diweddariad drafft hwn gan:

- *ymrwymiadau Uchelgais Prifddinas y Weinyddiaeth i gynyddu ailgylchu, cyflenwi gwasanaeth gwastraff effeithlon a sicrhau bod strydoedd Caerdydd yn lân;*
- *yr angen i gydymffurfio â deddfwriaeth;*
- *adolygiad o Strategaeth Rheoli Gwastraff Ailgylchu 2015-18; a*
- *phroses ymgynghori ffurfiol a fydd yn rhedeg o fis Mehefin tan Awst 2018.*

*Mae'r strategaeth ddrafft yn cadarnhau egwyddorion craidd y Cyngor ar gyfer cynyddu ailgylchu a'r camau a nodwyd yn y strategaeth flaenorol, a fydd yn parhau i gael eu gyrru ymlaen yn ychwanegol at gamau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg y mae angen eu datblygu yn ogystal yn ystod 2018-21. Dyry'r atodiadau canlynol ragor o fanylion*.

- **Atodiad A1** - Casglu Gwastraff Gwydr ar Wahân
- **Atodiad A2** - Ehangu'r Ddarpariaeth Gwasanaeth Biniau Olwyn
- **Atodiad A3** - Lleihau, Addysg, Ailddefnyddio a CAGCau (Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi)
- **Atodiad A4** - Cynllunio Ymlaen – Seilwaith a Phartneriaid
- **Atodiad A5** - Safonau Gwasanaeth
- **Atodiad A6** - Perfformiad Ailgylchu
- **Atodiad B** - Dadansoddiad Bwlch
- **Atodiad C** - Cydymffurfio â "Glasbrint Casgliadau" Llywodraeth Cymru
- **Atodiad D** - Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Offeryn Sgrinio


# 2. Strategaeth Rheoli Gwastraff Ailgylchu Caerdydd

## 2. 1 Egwyddorion Allweddol

Sefydlodd Strategaeth Rheoli Gwastraff Ailgylchu 2015-18 gyfres o egwyddorion allweddol a oedd yn rhoi sail polisi ar gyfer cynyddu ailgylchu a delio’n effeithiol â rheoli gwastraff yn y ddinas. Ymhlith yr egwyddorion allweddol hyn:

| Egwyddor Allweddol | Pwrpas |
|---|---|
| Lleihau Gwastraff | Lleihau twf Gwastraff Solet Trefol y pen trwy hyrwyddo mentrau lleihau gwastraff gyda nod hirdymor o leihau’r twf i ddim |
| Ymwybyddiaeth ac Addysg | Codi ymwybyddiaeth gyda'r cyhoedd a'r Cyngor am yr angen i wella ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio o safon uchel ledled y ddinas trwy ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid. |
| Gwneud y gorau o Ailddefnyddio, Ailgylchu ac Adfer o safon uchel | Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau a gynhyrchwyd, gyda'r nod yn y pen draw o gyflawni cyfradd ailddefnyddio/ ailgylchu/ compostio o 70% erbyn 2024/25. |
| Lleihau Gwastraff i'w Waredu | Lleihau faint o Wastraff Solet Trefol a anfonir i'w waredu, trwy beidio mynd dros ben uchafswm targedau Llywodraeth Cymru i gyfleusterau troi gwastraff yn ynni. |
| Partneriaethau | Gweithio gyda sefydliadau partner lleol, lle bo'n ymarferol, i ddarparu buddion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. |
| Gwasanaeth Cost Effeithiol | Darparu gwasanaeth rheoli gwastraff gwerth am arian sy'n gost effeithiol ac effeithlon. |
| Rheoli Cynaliadwy | Cynnig gwasanaethau rheoli gwastraff sy'n cynnig llawer gwell cynaliadwyedd, a llawer llai o allyriadau carbon ac ôl troed carbon. |

Rhaid i'r egwyddorion hyn, sydd wedi gwasanaethu'r Cyngor yn dda, barhau i ategu strategaeth y Cyngor wrth iddo geisio cynyddu cyfraddau ailgylchu a gwella effeithlonrwydd gweithredu'r gwasanaeth gwastraff. Byddant hefyd yn tanategu cyflenwi’r dull Stryd Gyfan o gadw strydoedd a mannau cyhoeddus yn lân, tra’n cydgysylltu gwasanaethau'r Cyngor.



Felly bydd strategaeth ddrafft 2018-21wedi'i diweddaru yn parhau ag egwyddorion craidd Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff y Cyngor, a atgyfnerthir trwy'r ymrwymiadau polisi a amlinellir yn Uchelgais Prifddinas.

## 2.2 Cyflawniadau Allweddol

Gyda buddsoddiad priodol, mae Strategaeth Rheoli Gwastraff Ailgylchu Caerdydd 2015-18 wedi cyflenwi'n llwyddiannus newidiadau i ymarfer gweithredu yn ogystal â newid ymddygiadol. Arweiniodd hyn at gynnydd cyffredinol mewn cyfraddau ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio o 53% yn 2014/15, i'r gyfradd bresennol o dros 58%.

Mae'r cynnydd yn y cyfraddau ailgylchu cyffredinol yn sylweddol, ac mae'r Cyngor yn diolch i'w breswylwyr am eu cydweithrediad yn y cynllun cyfyngu gwastraff. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r strategaeth hefyd wedi galluogi Caerdydd i:

- *Gynyddu perfformiad ailgylchu a chwrdd â thargedau statudol*
- *Darparu Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi (CAGC) newydd a gwell yn Ffordd Lamby*
- *Darparu gwasanaeth casglu gwastraff swmpus am ddim ar gyfer eitemau ailgylchadwy*
- *Cyflwyno partneriaeth ailddefnyddio yn CAGCau Bessemer Close a Ffordd Lamby*
- *Symud yn nes at "Lasbrint Casgliadau" Llywodraeth Cymru, sef y dull a argymhellir ar gyfer casglu gwastraff cartrefi*
- *Symud i ddarparu biniau olwyn 140L a chyfyngiad cyfatebol trwy ddarparu bagiau 'pwrpasol' stribed coch ar draws y ddinas*
- *Cyfnewid bagiau-bio defnydd untro ar gyfer gwastraff gardd gyda sachau y gellir eu hailddefnyddio ar draws y rhan fwyaf o'r ddinas*
- *Cyflenwi'r contract trin gwastraff organig ar gyfer ailgylchu bwyd a gwastraff gwyrdd*
- *Atal preswylwyr nad ydynt yn breswylwyr Caerdydd rhag defnyddio CAGCau trwy gyflwyno gofyniad i ddarparu prawf preswyl*
- *Sicrhau marchnadoedd ailgylchu newydd ar gyfer teiars, matresi, carpedi ac uPVC*
- *Codi £25 am amnewid biniau olwyn a gollwyd neu sydd wedi eu dwyn, a biniau olwyn ar gyfer eiddo newydd*
- *Dechrau contractau rhanbarthol i brosesu gwastraff bwyd a gwastraff gardd yng Nghymru*

# 3. Hysbysu'r Strategaeth Ddrafft Wedi'i Diweddaru

## 3.1 Adolygiad o Strategaeth Rheoli Gwastraff Ailgylchu 2015-18

Cafodd y strategaeth flaenorol ei rhannu'n bum cyfnod ar wahân a adolygwyd fel rhan o'r broses gyflenwi barhaus. Mae'r adolygiad hefyd wedi hysbysu'r Strategaeth Ddrafft Wedi'i Diweddaru ar gyfer 2018-21, gyda chrynodeb o'r cynnydd isod:

| **Cyfnod** | **Adolygiad Cynnydd** |
|---|---|
| Cyfnod 1:<br>Rhaglen cyfyngu ar wastraff gweddilliol | Cyflawnwyd camau 1 a 2 yn llawn, ac maent wedi arwain at gynnydd yn ein perfformiad ailgylchu cyffredinol o 53% yn 2014/15 i 58% yn 2016/17. |
| Cyfnod 2: Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi, marchnadoedd newydd ac opsiynau ailddefnyddio | |
| Cyfnod 3:<br>Gofynion newid casgliadau ailgylchu | Cwblhawyd Cyfnod 3 yn 2015. Bydd angen adolygiad pellach i barhau i symud gyda gofynion y farchnad a pherfformiad. |
| Cyfnod 4:<br>Seilwaith ailgylchu | Cwblhawyd Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi newydd yn 2017.<br>Cyflawnwyd perfformiad ailgylchu ychwanegol trwy drin ac ailgylchu ysgubiadau stryd a matresi.<br>Bydd camau 4 a 5 yn parhau i gael eu cyflenwi drwy'r strategaeth ddiweddaraf. |
| Cyfnod 5:<br>Perfformiad ailgylchu ychwanegol; masnachol, glanhau 2017/18 | |

Mae'r dull cyfredol hefyd wedi symud y Cyngor yn nes at Lasbrint Casgliadau dewisol Llywodraeth Cymru, sy'n amlinellu'r dull a argymhellir ar gyfer casglu gwastraff cartrefi ac sy'n anelu at gynyddu'r cyfraddau ailgylchu o ansawdd uchel, sicrhau arbedion cost, a chyflenwi datblygu cynaliadwy. Dylid nodi nad oes unrhyw Awdurdod Lleol yng Nghymru ar hyn o bryd yn bodloni holl ofynion y Glasbrint Casgliadau. Bydd y camau a gynhwysir yn y strategaeth ddiwygiedig hon yn golygu gwelliannau pellach yn unol â'r Glasbrint Casgliadau.

Cynhaliwyd dadansoddiad bwlch llawn hefyd i nodi'r camau a gyflwynwyd a'r camau gweithredu sy'n weddill ers 2015. Cynhwysir hwn fel **Atodiad B** i'r strategaeth hon.




## 3.2 Perfformiad Cymharol

Wrth gymharu perfformiad Caerdydd, mae'r Cyngor yn perfformio'n dda mewn sawl maes. Y gwahaniaeth mwyaf rhwng Caerdydd ac Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru yw'r swm mawr o wastraff masnachol a gynhyrchir a'r pwysau y mae economi canol y ddinas yn ei achosi. Nid yw digwyddiadau a busnesau ar raddfa fawr bob amser yn ailgylchu'r un faint o wastraff â chartrefi, er bod hyn yn gwella.

Dim ond y gwastraff a gesglir - ac a ailgylchir wedyn - gan y Cyngor o'r busnesau hyn sy’n cael ei gynnwys yn y tunelli sy'n cyfrannu at ffigurau ailgylchu cyffredinol y Cyngor. Felly gall casgliadau gwastraff masnachol gael effaith sylweddol ar arafu’r cyfraddau ailgylchu cyffredinol os nad yw'r cyfraddau ailgylchu gwastraff a gesglir gan fusnesau yn perfformio mor uchel ag a fynnir gan dargedau cenedlaethol.

Amlinellir isod y gyfran a ffynonellau gwastraff a gesglir gan y Cyngor ac a gynhwysir mewn diffiniadau perfformiad ailgylchu:




Mae gwasanaethau ailgylchu gwastraff masnachol yn darparu ffrwd incwm sy'n cefnogi'r Cyngor i ddarparu ei holl wasanaethau ailgylchu gwastraff. Pan gaiff Caerdydd ei meincnodi yn erbyn Dinasoedd Craidd eraill y DU, sy'n wynebu heriau tebyg i Gaerdydd, mae'n amlwg bod y ddinas yn cyflawni perfformiad ailgylchu llawer uwch na Dinasoedd Craidd mawr eraill y DU, hyd yn oed wrth gyfrifo am y gwahaniaethau mewn data casglu.

| Ardal | Perfformiad ailgylchu 2016/17 (%) |
|---|---|
| Cymru | 63.8 |
| CAERDYDD | 58.1 |
| Caeredin | 42.3 |
| Bryste | 43.4 |
| Manceinion | 36 |
| Glasgow | 26 |

## 3.3 Gofynion Deddfwriaethol a Thargedau Ailgylchu Statudol

Gosododd Llywodraeth Cymru dargedau statudol heriol ar gyfer holl Awdurdodau Lleol Cymru. Mae methu â chyrraedd y targedau hyn yn cynnwys cosb o £200 y dunnell, a chrynhoir y targedau statudol ar gyfer Caerdydd isod:

| Gwastraff a gesglir gan Awdurdodau Lleol (Caerdydd) | Targedau 2019/20 | Targedau 2024/25 |
|---|---|---|
| Isafswm ailgylchu cyffredinol | 64% | 70% |
| Uchafswm lefel y tirlenwi | 10% | 5% |
| Uchafswm lefel ynni o wastraff | 36% | 30% |
| Lwfans Tirlenwi Bioddiraddadwy | 33,557t | - |

Rhaid cynnal neu wella'r targed statudol o 58% a bennwyd ar gyfer 2015/16 hyd at 2019/20. Mae angen cynnydd cynyddol bob blwyddyn i gyflawni neu fynd dros ben y 64% gofynnol yn 2019/20. Hyd yn hyn, ni roddwyd unrhyw ddirwyon i unrhyw Awdurdod Lleol yng Nghymru ar yr amod bod cynllun gwella clir wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn gyfan gwbl ar ddisgresiwn Llywodraeth Cymru, a gallai'r risg o ddirwyon mwy gynyddu i £10.45m erbyn 2025 pe bai'r Cyngor yn aros ar ei gyfradd ailgylchu bresennol.

| Opsiwn gwneud dim yn seiliedig ar berfformiad 2016/17 (58%) | Targed ailgylchu Awdurdod Lleol | Diffyg tunelledd ailgylchu | Gwerth dirwyon blynyddol |
|---|---|---|---|
| 2017/18 | 58% | - | - |
| 2018/19 | 58% | - | - |
| 2019/20 | 64% | 6,970 | £1.394m |
| 2020/21 | 64% | 6,970 | £1.394m |
| 2021/22 | 64% | 6,970 | £1.394m |
| 2022/23 | 64% | 6,970 | £1.394m |
| 2023/24 | 64% | 6,970 | £1.394m |
| 2024/25 | 70% | 17,424 | £3.485m |
| | | Cyfanswm | **£10.45m** |

Mae'n annhebygol y bydd penderfyniad Refferendwm y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd yn cael effaith ar y rheoliadau a restrir uchod. Mae gwastraff yn bŵer datganoledig ac mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gosod targedau ailgylchu a gwastraff sy’n uwch na'r gofynion ar gyfer Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Ers cyhoeddi'r strategaeth flaenorol yn 2015, ni fu unrhyw newidiadau mawr i'r rheoliadau. Wedi dweud hynny, bydd cyflwyno’r Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016 newydd yn cael dylanwad ar y strategaeth wedi'i diweddaru pan gyhoeddir y Rheoliadau Ailgylchu a'r Amgylchedd newydd, er na ddisgwylir y rheiny tan 2019/20.

## Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff Ddiwygiedig (rWFD)

Y ddeddfwriaeth allweddol UE a weithredir ar gyfer gwastraff yw Cyfarwyddeb 2008/98/EC, neu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff (Comisiwn Ewropeaidd, 2012). Amlinella'r ddeddfwriaeth hon egwyddorion a dulliau lefel uchel o reoli gwastraff, sydd i'w gweithredu gan Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Gyfarwyddeb yn cyflwyno'r hierarchaeth wastraff, sy'n nodi'r dull gorau a'r dewis gorau o ran arferion rheoli gwastraff ymhlith Aelod-wladwriaethau'r UE, tra'n gosod targedau ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff.

## Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2012

Arweiniodd y gofyniad i Aelod-wladwriaethau'r UE sefydlu cynlluniau rheoli gwastraff cenedlaethol at gynhyrchu Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, i drosi eu dehongliad o ofynion allweddol rWFD. Diwygiwyd y rhain yn 2012, gan ffurfio Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2012.

## Tuag at Ddyfodol Diwastraff

Strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff (TZW) Llywodraeth Cymru yw'r strategaeth wastraff gyffredinol ar gyfer Cymru ac mae'n disgrifio fframwaith ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff rhwng nawr a 2050. Amlinella'r strategaeth y camau y mae angen eu cymryd os yw Cymru i gyrraedd ei huchelgais o ddod yn genedl ailgylchu uchel erbyn 2025, a chenedl ddiwastraff erbyn 2050.

Mae TZW yn amlinellu targedau heriol y mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol eu cyflawni, sy’n canolbwyntio nid yn unig ar gyflawni lefelau uchel o ailgylchu, ond hefyd sy’n mynd tu draw i gyfraddau dargyfeirio tirlenwi yr UE. Amlinella'r strategaeth hefyd ddulliau dewisol o gasglu a thrin gwastraff ac ailgylchu, ac mae'n ceisio atal twf gwastraff.

### Cynllun Sector Dinesig – Rhan 1 "Glasbrint Casgliadau"

Mae'r glasbrint casgliadau hwn yn disgrifio'r proffil gwasanaeth a argymhellir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer casglu gwastraff o gartrefi. Disgwylir i'r gwasanaeth a argymhellir arwain at gyfraddau ailgylchu uchel, arbedion ariannol hirdymor sylweddol, a chanlyniadau gwell o ran datblygu cynaliadwy.

Mae pwyslais allweddol y ddogfen ar sicrhau ailgylchu "dolen gaeedig", lle y caiff gwastraff ei gasglu, ailgylchu a'i ailddefnyddio i wneud cynhyrchion newydd; fodd bynnag, y mae hyn angen deunydd o ansawdd uchel. Darperir cymhariaeth o wasanaeth Caerdydd a'r Glasbrint Casgliadau yn **Atodiad C**. Gallai methu â chydymffurfio â gofynion y Glasbrint Casgliadau arwain at leihau/ dileu cyllid gan Grant Datblygu Cynaliadwy yr Amgylchedd - yn ystod 2017/18, roedd hwn werth £6.6 miliwn i'r Cyngor.

## 3.4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod pob corff cyhoeddus yn ystyried effeithiau tymor hir polisi ar genedlaethau'r dyfodol wrth wneud penderfyniadau, yn enwedig trwy roi sylw dyledus i'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Nodweddir yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy gan y Pum Ffordd o Weithio canlynol:

1. **Integreiddio**
   E.e. Integreiddio timau casglu gwastraff a glanhau, wrth i'r Cyngor geisio gweithio'n gynyddol ar draws ffiniau sefydliadol ac adrannol.
2. **Cydweithio**
   E.e. Cydweithio â Sefydliad Prydeinig y Galon i ddatblygu Canolfannau Ailddefnyddio a datblygu casglu sbwriel cymunedol "Caru Lle Rydych yn Byw" gyda thrigolion lleol. Yn ogystal, sicrhau partneriaethau contract sefydledig gydag awdurdodau cyfagos.
3. **Atal**
   E.e. Lleihau gwastraff cyffredinol, lleihau gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi a chynyddu ailgylchu. Cefnogi gwasanaethau cyhoeddus sy'n darparu strydoedd glân ac atal troseddau amgylcheddol.
4. **Ymgysylltu**
   E.e. Ymgynghori ar y strategaeth arfaethedig a gweithio gyda grwpiau preswyl a phartneriaid i helpu i gadw Caerdydd yn daclus.
5. **Tymor Hir**
   E.e. Ystyried tueddiadau gwastraff yn y dyfodol, adolygu ffigurau twf y boblogaeth ac aelwydydd ac adolygu potensial ailgylchu Caerdydd er mwyn cyflawni a mynd tu draw i'r targedau ailgylchu.

Wrth gydymffurfio â'r Ddeddf, gall y strategaeth ddangos yn amlwg sut mae'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r Pum Ffordd o Weithio wedi llunio ei datblygiad. Hefyd bu'r Strategaeth Ddrafft Wedi'i Diweddaru yn destun Asesiad Sgrinio Statudol, sydd ynghlwm yn **Atodiad D**.



# 4. Potensial Perfformiad ac Ailgylchu Caerdydd

Mae adolygiad llif gwastraff wedi cadarnhau bod cyflawni targedau ailgylchu o dros 70% yn ymarferol, ond ni fydd yn cael ei gyflawni heb gyfres o newidiadau i'r model gweithredu presennol, amgylchedd y farchnad ac ymddygiadau ailgylchu. Felly byddai cyfradd ailgylchu 70% angen:

- *Mwy o addysg ac ymwybyddiaeth;*
- *Newidiadau diwylliannol ac arferion;*
- *Marchnadoedd allanol newydd yn dod yn hyfyw a sefydlog;*
- *Gorfodi cryfach o ailgylchu;*
- *Cydbwyso'r incwm masnachol a gynhyrchir trwy ailgylchu masnachol gyda risg.*


Pe bai rhwystrau penodol yn cael eu dileu, ymddygiad yn newid yn ddigonol, ac amodau'r farchnad yn iawn, mae nifer o ardaloedd lle gallai'r Cyngor gynyddu'r symiau y mae'n ei ailgylchu.

Er ei bod hi'n anodd rhagweld ymddygiad pobl yn erbyn cefndir twf cyflym y boblogaeth, mae'r adolygiad wedi penderfynu bod digon o ailgylchu ar gael yn y ffrydiau gweddilliol er mwyn sicrhau ailgylchu o 70% neu uwch yn y ddinas. Yn seiliedig ar y tunelledd presennol a gyflawnwyd a'r dadansoddi cyfansoddiad o'r hyn sydd ar gael, amlinella'r crynodeb ar y dudalen ganlynol sut y gellir cyflawni 70%. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn **Atodiad A6.**

## 4.1 Potensial am Fwy o Ailgylchu

Yn seiliedig ar ein dadansoddiad o wastraff ac ailgylchu, credwn fod potensial i gynyddu ailgylchu mewn nifer o feysydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *Gwastraff Cartrefi: Casgliadau ymyl y ffordd i gartrefi, gwastraff swmpus, hylendid a safleoedd dod â gwastraff*
- *Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi*
- *Glanhau strydoedd, tipio anghyfreithlon a sbwriel*
- *Ysgubiadau stryd*




)

| Maes | Ailgylchu a Pherfformiad - Gwelliannau Potensial | Tunelledd Ychwanegol Potensial i Ailgylchu (bras) * |
|---|---|---|
| Gwastraff Cartrefi:<br><br>Casgliadau ymyl y ffordd i gartrefi, safleoedd gwastraff swmpus, hylendid a safleoedd dod â gwastraff | Gallem adennill ailgylchu ychwanegol trwy gynyddu perfformiad o 64% i 70%.<br>• Gellid cyflawni bron i 1,000 tunnell o ailgylchu gwastraff hylendid.<br>• Gellid cyflawni 500 tunnell ychwanegol o ailgylchu tecstilau wrth ymyl y ffordd.<br>• Gellid cefnogi mwy o bobl i ailgylchu mwy o eitemau<br>• Ailddefnyddio a didoli eitemau swmpus ymhellach.<br>Bydd gwella perfformiad yn cael ei yrru'n bennaf gan addysg ac yn dylanwadu ar arferion preswylwyr i ailgylchu'n gywir a chymaint â phosib. | +6,000t |
| Gwastraff Cartrefi: Canolfannau Ailgylchu | Symud i 80% o ailgylchu deunyddiau cyfredol trwy sicrhau bod preswylwyr yn ailgylchu cymaint â phosib yn y CAGCau.<br>Gallai sicrhau cyfleoedd marchnad newydd ar gyfer hylendid a ffenestri PVC gynhyrchu tunelli ychwanegol ar gyfer ailgylchu. | +5,000t |
| Glanhau strydoedd, sbwriel a thipio anghyfreithlon | Mae sbwriel, glanhau a thipio anghyfreithlon yn cyfrannu cyfran lai o'r ffrwd wastraff gyfan, ond gallai hyd yn oed newidiadau bach arwain at gynnydd bach yn y perfformiad ailgylchu cyffredinol. | |
| Ysgubiadau stryd | Lleihau halogi wrth gasglu ysgubiadau stryd. | +280t |
| Casgliadau Gwastraff Masnachol | Yn seiliedig ar ddadansoddi cyfansoddiad, mae cyfran helaeth o ailgylchu ar gael yn y ffrydiau gwastraff masnachol.<br>O'r lefel bresennol o Wastraff Masnachol a gasglwyd, mae tua 29% yn cael ei ailgylchu. Pe bai hyn yn cynyddu i 58%, gellid ailgylchu tua 6,000 yn fwy o dunelli. Fodd bynnag, bydd cydbwyso hyn gyda thwf y farchnad ac incwm yn golygu llinell amser arafach i wella ailgylchu yn y maes hwn.<br>Targedu casgliadau ffrydiau sengl newydd a gwasanaethau sgipiau.<br>Cofleidio Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd i hyrwyddo a chefnogi gwaharddiadau tirlenwi a chasgliadau ailgylchu ar wahân.<br>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar gynlluniau dychwelyd ernes ac ailddefnyddio. | +6,000t |
| Ailgylchu Eilaidd | Mae cyfleoedd eilaidd i gael gwared ar fwy o ailgylchu o ffrydiau gweddilliol. Trwy ddidoli sgipiau gweddilliol a ffrydiau gweddilliol eraill megis tipio anghyfreithlon, gellir adennill tunelli pellach ar gyfer ailgylchu. | + 3,000t |

* Penderfynwyd ar y ffigurau hyn trwy ddefnyddio'r modelu llif gwastraff cyfredol. Fodd bynnag, mae'r proffilio yn destun i newid gydag angen ystyried poblogaeth gynyddol, twf tai ac arferion ailgylchu.

# 5. Cwblhau'r Materion a Nodwyd yn Strategaeth 2015-18

Yn dilyn adolygiad Strategaeth 2015-18, nodwyd pum maes ffocws allweddol sydd angen eu gweithredu ar unwaith, er mwyn cwblhau'r broses o gyflenwi Strategaeth 2015-18 a chefnogi cyflenwi'r Strategaeth Ddrafft Wedi'i Diweddaru ar gyfer 2018-21.

## Peilota Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gwydr ar Wahân

Er mwyn lleihau costau prosesu a chynnal a chadw gweithredol, bydd y Cyngor yn peilota casglu gwastraff gwydr bob pythefnos mewn cynhwysydd ar wahân at ddibenion ailgylchu.

Bydd y gwasanaeth casglu bagiau gwyrdd wythnosol yn parhau ar gyfer pob deunydd arall, ond rhaid gosod y gwastraff gwydr mewn cynhwysydd ar wahân. Bydd hyn yn golygu y gellir darparu gwastraff gwydr o ansawdd uchel ar gyfer ailgylchu, gan leihau'r perygl i'r Cyngor o golli allfa ailgylchu gwydr. Bydd y newidiadau yn hunan-ariannu; ceir incwm yn lle'r gost bresennol o ailgylchu gwastraff gwydr.

Bydd hyn yn ariannu'r costau casglu ychwanegol o ddarparu'r gwasanaeth hwn. Ar ôl cwblhau'r peilot, ymgynghorir â thrigolion a bydd yr adborth yn llywio datblygiad pellach y Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff. Gweler y wybodaeth am y cefndir a'r peilot ar gyfer casgliad gwydr ar wahân yn **Atodiad A1.**

## Ehangu Darpariaeth y Gwasanaeth Biniau Olwyn

Mae manteision darparu a defnyddio biniau olwyn, lle bo'n briodol, wedi'u sefydlu'n dda o'u cymharu â chasgliadau bagiau. Maent yn lleihau sbwriel stryd ac ymosodiadau plâu. Mae biniau olwyn hefyd yn darparu storio a symud gwastraff yn ddiogel i weithwyr a thrigolion.

Ystyrir bod 3,000 o gartrefi eraill (yn fras) yn addas ar gyfer biniau olwyn o dan y meini prawf presennol. Cynhelir ymgynghoriad lleol gydag aelodau'r ward i gytuno ar faint llawn y rhaglen ehangu. Darperir y newidiadau hyn o fewn yr adnoddau presennol a cheir rhagor o fanylion ynghlwm yn **Atodiad A2.**

## Lleihau, Addysg, Ailddefnyddio a Newidiadau i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi

Bydd y Cyngor yn parhau â'i ymrwymiad i hyrwyddo Lleihau Gwastraff trwy addysg ochr yn ochr â phartneriaethau ailddefnyddio. Bydd negeseuon a gweithgareddau addysg clir yn cefnogi newid pellach i alluogi preswylwyr i ailddefnyddio ac ailgylchu mwy yn y ffordd gywir. Mae partneriaeth ailddefnyddio bellach wedi'i hen sefydlu gyda Sefydliad Prydeinig y Galon, a darperir twf pellach o ailddefnyddio arbenigol, megis cymhorthion meddygol ac offer. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddefnyddio ei asedau i gefnogi twf partneriaethau ailddefnyddio.

Un maes allweddol a ddynodwyd ar gyfer gwella yw'r CAGCau. Er bod y Cyngor yn cynnig dros 30 o wahanol opsiynau ailgylchu ar gyfer preswylwyr, nid yw cyfran sylweddol o wastraff yn dal i gael ei ddidoli'n ddigonol. Pe byddai modd ailgylchu 80%, gellid ychwanegu bron i 4,000 tunnell at berfformiad ailgylchu. Mae nifer o ddefnyddwyr yn bagio pob math o wastraff a'i waredu yn y sgip gwastraff cyffredinol. Felly, bydd y Cyngor yn cyflwyno 'gorsaf addysg' yn y CAGCau i gynorthwyo preswylwyr sy'n dod â gwastraff cymysg mewn bagiau.

Bydd hyn yn cynorthwyo i gadarnhau'r negeseuon sy'n cael eu cyfleu i breswylwyr ynghylch sut i ailgylchu'n effeithiol, a'u helpu i baratoi eu gwastraff yn briodol cyn ymweld â'r CAGC er mwyn galluogi cymaint o ailgylchu â phosib. Atodir cynigion llawn i fodloni a rhagori ar y targedau ailgylchu o 80% a osodwyd ar gyfer CAGCau, y cynlluniau ailddefnyddio, a'r strategaeth ymgysylltu â'r gymuned yn **Atodiad A3**.

## Datblygu seilwaith ailgylchu newydd

Mae angen clir i ystyried gofynion seilwaith gwastraff Caerdydd yn y dyfodol o ystyried twf y ddinas. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn nodi'r ardaloedd o dwf mawr yn y ddinas ac er y bydd y seilwaith CAGC presennol yn amsugno twf y gogledd-ddwyrain, rhaid ystyried y galw tymor hir yn ardaloedd twf y ddinas. Bydd CAGC domestig a masnachol newydd yn ofynnol i ddarparu ar gyfer ardaloedd twf pellach yn y ddinas, er mwyn cynnal y cyfleoedd ailddefnyddio ac ailgylchu mwyaf posibl yn y dyfodol ar gyfer gwastraff nad yw'n cael ei gasglu ar ymyl y ffordd. Bydd angen achos busnes sy'n darparu asesiad lleoliad addas. Bydd amser arwain o 2-3 blynedd ar ddarparu cynllunio, caniatáu ac adeiladu ar gyfer safle o'r fath, ar ôl prynu tir priodol.

Yn yr un modd, mae angen i'r Cyngor gyflwyno achos busnes amlinellol ar gyfer cyfleusterau ailgylchu deunyddiau yn y dyfodol. Bydd y Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau presennol yn Ffordd Lamby yn cwrdd ag anghenion tymor canolig y Cyngor, ond nid yn y tymor hir oherwydd dibrisiant asedau a symiau twf yn y dyfodol. Unwaith eto, oherwydd y costau, tir, a'r llinellau amser datblygu sy'n gysylltiedig â phroject newydd o'r fath, mae angen gwaith nawr. Yn yr un modd, ar gyfer menter mor fawr, mae economïau maint yn hanfodol.

Mae'r Cyngor yn dymuno archwilio gweithio'n rhanbarthol, yn dilyn ymlaen o lwyddiannau'r Project Gwyrdd gyda gwastraff gweddilliol a phartneriaethau contract Triniaeth Gwastraff Organig Caerdydd. Bydd y ddwy astudiaeth yn adolygu arolygon technegol ac astudiaethau dichonoldeb, a all wedyn hysbysu'r adolygiad nesaf o'r CDLl. Bydd seilwaith y Cyngor yn y dyfodol yn ystyried newid gofynion pecynnu ac arferion defnyddwyr o ran papur, plastigion a chynlluniau dychwelyd ernes posibl. Ceir manylion pellach, gyda chrynodeb o ofynion, ynghlwm yn **Atodiad A4**.

### Archwilio Opsiynau i Wella Effeithiolrwydd a Phrofiad Cwsmeriaid

Mae bob amser angen cyflenwi gwelliannau sy'n cwrdd ag anghenion cwsmeriaid a darparu effeithlonrwydd gweithredol, ac ymchwilio i ffyrdd o weithio sy'n gwella gwerth am arian er mwyn gwella'n barhaus. Noda'r adran hon amryw o opsiynau y gellir eu harchwilio i benderfynu a ellir cyflawni arbedion pellach. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried casglu ar Wyliau'r Banc neu ddefnyddio ffenestr gasglu wahanol yn ystod y dydd i leihau nifer yr wythnosau 'dal i fyny' neu osgoi problemau parcio a thraffig, a gall pob un ohonynt leihau amlder gwasanaethau a gollwyd. Effeithlonrwydd arall y gellid ei ddwyn ymlaen yw newid y gwasanaeth casglu compost i wasanaeth a arweinir gan alw yn ystod misoedd y gaeaf; gall hyn hefyd ddarparu gwell profiad i gwsmeriaid. Mae'r holl opsiynau hyn i'w harchwilio'n fanylach. Gweler astudiaeth achos mewn perthynas â phatrymau gwaith amgen, a gwerthusiad opsiwn lefel uchel ar gyfer rhai opsiynau gwelliannau casglu compost ar gyfer cwsmeriaid ac effeithlonrwydd yn **Atodiad A5**.

Bydd yr holl newidiadau a gynigir yn y Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff Ddrafft wedi'i Diweddaru yn seiliedig ar fodelu ariannol cadarn ac achosion busnes cryf. Hefyd mae angen i farchnadoedd newydd ac allfeydd presennol fod yn sefydlog a chynhyrchu ailgylchu o ansawdd da, tra bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi addysg wedi'i dargedu a dull 'dim goddefgarwch' o ran perchnogaeth wastraff wael.

## 6. Cynyddu'r Gyfradd Ailgylchu: Gweithredu ar gyfer 2018-21

Bydd y Cyngor yn adeiladu ar y dull lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu a nodwyd yn Strategaeth Rheoli Gwastraff Ailgylchu 2015-18.

### Addysg

Mae'n bwysig cydnabod rôl y cyhoedd wrth godi lefelau ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio o ansawdd uchel a helpu i gynnal ansawdd eu strydoedd lleol. Gall y Cyngor ymgymryd â modelu llif gwastraff manwl, dadansoddi data casglu, ymchwilio i arferion gorau a chreu gwelliannau i seilwaith ac ailgylchu a chynlluniau gwastraff, ond nid yw'r un o'r arferion hynny'n werth chweil heb gefnogaeth lawn y cyhoedd.

Wrth i newidiadau strategol gael eu gweithredu, bydd cynlluniau cyfathrebu llawn yn cael eu drafftio gyda chymorth tîm cyfathrebu y Cyngor ac arweinwyr cymunedol. Defnyddir ystod o ddulliau i gyfathrebu â phob cwsmer, yn fewnol ac yn allanol. Bydd y rhain yn cynnwys yr holl fformatau cyfryngau sydd ar gael, a byddant yn cydnabod yr amrywiadau cymdeithasol a demograffig ar draws Caerdydd

- *Byddwn yn darparu negeseuon addysgol wedi'u targedu yn benodol i'r ardaloedd, gan ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael i adnabod y neges ofynnol.*

Yn ogystal, bydd y Cyngor yn ystyried fformatau cyfathrebu dewisol ar gyfer grwpiau penodol, gan ofyn am gyngor gan grwpiau rheolaeth cymdogaeth a grwpiau cymunedol.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i'r Polisi Cyfle Cyfartal, a bydd yn parhau i gynnig deunydd mewn fformatau megis print bras, Braille a sain. Byddai'r newidiadau gweithredol a gynlluniwyd yn destun i Asesiadau Effaith Cydraddoldeb.

- *Byddwn yn gwneud defnydd llawn o ddeunydd cyfathrebu sydd ar gael gan sefydliadau partner, gan gynnwys deunydd cyhoeddusrwydd tipio anghyfreithlon gan Gyfoeth Naturiol Cymru.*
- *Byddwn yn tynnu ar weithgareddau cyfathrebu arfer da ac astudiaethau achos, yn ogystal â defnyddio ymchwil presennol gan sefydliadau partner i newid ymddygiadol, demograffeg a dulliau cyfathrebu dewisol.*

Rhaid i weithgareddau cymunedol megis ymgyrchoedd 'Caru Lle Rydych yn Byw' a 'Sbwriel Go Iawn' barhau i chwarae rhan bwysig wrth godi ymwybyddiaeth a chymorth gwirfoddolwyr yn uniongyrchol mewn cymunedau.

- *Byddwn yn adeiladu ar ethos yr ymgyrchoedd "Caru Lle Rydych yn Byw" a "Sbwriel Go Iawn" i hyrwyddo perchnogaeth gymunedol o faterion yn ymwneud â sbwriel, gwastraff ac ailgylchu, codi ymwybyddiaeth a synnwyr cyfrifoldeb cymdeithasol.*

## Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid wedi'i Dargedu

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfathrebu yn hanfodol er mwyn cynyddu cyfraddau ailgylchu ar draws y ddinas. Mae gan y Cyngor rai heriau, gyda myfyrwyr yn cynnwys 10.8% o gyfanswm poblogaeth Caerdydd. Mae hon yn gymuned dros dro, sy'n golygu bod angen buddsoddi mewn addysg a chodi ymwybyddiaeth yn flynyddol.

- *Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phrifysgolion, undebau myfyrwyr a'r trydydd sector i gefnogi myfyrwyr gyda golygfeydd stryd, ailddefnyddio ac ailgylchu.*

Hefyd mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 15.5% o boblogaeth Caerdydd, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Unwaith eto, mae hyn yn golygu'r angen am wybodaeth mewn ieithoedd penodol a chefnogaeth wedi'i deilwra i sicrhau cynhwysedd a bod holl breswylwyr y ddinas yn derbyn negeseuon allweddol. Mae'r holl wybodaeth ailgylchu a gwastraff allweddol ar hyn o bryd yn cael ei chyfieithu i 15 o ieithoedd cymunedol.

- *Byddwn yn gweithio gydag arweinwyr cymunedol a fforymau i sicrhau bod ein cyfathrebu'n cefnogi ein Cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i ailddefnyddio ac ailgylchu mwy.*


Datblygir ymgyrchoedd wedi'u targedu, gan ystyried anghenion y cymunedau unigol hyn, gyda chyngor gan randdeiliaid perthnasol.

Bydd y Cyngor hefyd yn gwneud defnydd llawn o'r holl ddata fesul ardal sydd ar gael i ni i ddatblygu cynlluniau ailgylchu ar gyfer ardaloedd penodol gydag amcanion gwahanol. Bydd ffocws addysg dros y tair blynedd nesaf o fewn ardaloedd ailgylchu sy'n perfformio ar lefel wael i ganolig. Er enghraifft, nododd ymarfer monitro a gwella yn 2015 y gellid cyflawni'r enillion positif mwyaf yn y Tyllgoed/ Trowbridge, a oedd yn ardaloedd ailgylchu-canolig.

- *Byddwn yn defnyddio data deallus i gyflawni ymgyrchoedd wedi'u targedu mewn ardaloedd sy'n debygol o weld y newid cynyddol gorau mewn perfformiad ailgylchu*



Nid yw bob amser yn bosibl danfon taflen i bob drws yn y ddinas, a dyna pam mae gwella wedi'i dargedu'n hanfodol. Hefyd ceir tystiolaeth gynyddol nad yw llawer o gartrefi yn ymateb yn dda i daflenni 'oer' sy'n cael eu rhoi drwy'r drws. Bydd angen i'r Cyngor sicrhau, wrth iddo symud ymlaen â'i agenda ddigidol, bod technoleg newydd yn cefnogi cyfathrebu lle bynnag y bo’n bosibl. Mae arolygon diweddar Holi Caerdydd hefyd wedi helpu i hysbysu sut a ble mae pobl yn mynd i ddod o hyd i'w gwybodaeth ailgylchu a gwastraff (crynodeb isod). Bydd hyn eto'n ein helpu i ddefnyddio dulliau cyfathrebu mwy cost-effeithiol, y mae'n well gan breswylwyr eu defnyddio hefyd.




Yn ogystal, gall y Cyngor nawr ddadansoddi fesul ward a fesul stryd lle mae preswylwyr yn dod o hyd i wybodaeth am ddyddiadau ailgylchu a chasglu gwastraff. Gallwn deilwra dulliau cyfathrebu ymhellach, yn seiliedig ar ddulliau ymgysylltu dewisol ein preswylwyr.

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae egwyddor graidd yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar weithio mewn partneriaeth. Yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer seilwaith rhanbarthol a rennir, bydd cydweithredu parhaus mewn perthynas â marchnadoedd ailgylchu a chynhyrchu nwyddau o ddeunyddiau yn parhau i gynhyrchu buddion trwy'r arbedion maint a geir mewn partneriaethau.

- *Byddwn yn archwilio partneriaethau cymunedol ac elusennol, ochr yn ochr â phartneriaethau awdurdodau lleol, i ffurfio conglfaen strategaeth ailgylchu hirdymor gref ac economi gylchol yn y maes hwn.*

## Marchnadoedd Newydd i Wastraff Ailgylchu

Pan fydd unrhyw farchnadoedd newydd posibl yn agor ar gyfer deunyddiau ailgylchu, bydd y Cyngor yn archwilio hyfywedd cynnig gwasanaethau ehangedig i breswylwyr a busnesau.

- *Byddwn yn archwilio marchnadoedd newydd wrth iddynt ddod yn hyfyw, fel gwastraff hylendid, mwy o blastigau caled a pholystyren dros y 3 blynedd nesaf.*

## Plastigau Defnydd Untro

Mae'r Cyngor yn cydnabod y difrod y mae plastig gwastraff yn ei achosi i'r amgylchedd, a bod plastigau untro yn creu gwastraff dianghenraid gydag effeithiau negyddol ar ein cymunedau a'r amgylchedd. Cynhyrchir oddeutu 400 miliwn o dunelli o blastig yn fyd-eang bob blwyddyn, a bwriedir 40% ohonynt ar gyfer defnydd untro. Mae dros 8 miliwn tunnell fetrig o'r plastig hwn yn mynd i mewn i gefnforoedd y byd bob blwyddyn, gyda'r rhan fwyaf yn tarddu o'r tir. Gall gostyngiad yn y defnydd o blastigion ac ailgylchu'r plastig hwnnw y gellir ei ailgylchu, fel plastig a gesglir o gartrefi yn y ddinas drwy'r cynllun bagiau gwyrdd, helpu i ddiogelu ein hamgylchedd a chefnogi agendâu cynaliadwy.

- *Byddwn yn cyflwyno cynnig ar gyfer lleihau'n sylweddol blastigau untro - megis cwpanau plastig a chyllyll a ffyrc plastig - gan y Cyngor ac o fewn ein cadwyni cyflenwi erbyn yr hydref 2018.*
- *Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r difrod amgylcheddol a achosir gan blastigau untro.*
- *Byddwn yn parhau i weithio gyda Dŵr Cymru i ddarparu gorsafoedd ail-lenwi dŵr yfed.*
- *Byddwn yn parhau i hyrwyddo manteision amgylcheddol gwaredu a chasglu priodol o blastigau ailgylchadwy ar gyfer ailgylchu.*

## Cyfryngau tanwydd amgen

Mae Uchelgais Prifddinas yn cefnogi'r symudiad tuag at ffynonellau tanwydd mwy cynaliadwy. Eisoes mae gwasanaethau gwastraff yn archwilio cyfryngau tanwydd amgen fel cerbydau trydan a hydrogen neu danwyddau nwy naturiol cywasgedig ar gyfer fflyd Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV) y Cyngor.

- *Byddwn yn archwilio cyfryngau tanwydd amgen - megis cerbydau trydan a thanwydd hydrogen ar gyfer y fflyd HGV - er mwyn cyfrannu at leihau carbon ac ymrwymiadau aer glân y Cyngor, yn ogystal â chynaliadwyedd hirdymor y fflyd.*

## Gorfodi

Mae Uchelgais Prifddinas yn ei gwneud yn glir y bydd gan y Cyngor bolisi o 'ddim goddefgarwch' gyda phobl sy'n taflu sbwriel a thipwyr anghyfreithlon sy'n dangos diffyg parch llwyr at eu cymdogion a chymunedau. Bydd hyn yn golygu cynyddu gweithgareddau gorfodi a dirwyon.

- *Byddwn yn mabwysiadu dull gorfodi "dim goddefgarwch" tuag at droseddu amgylcheddol, i'r rheiny yn y gymuned nad ydynt yn cymryd cyfrifoldeb am eu gwastraff eu hunain. Dim ond mewn achosion lle mae deddfwriaeth, a chyfeiriad gwleidyddol, ar gael i gefnogi hyn y bydd gorfodi yn opsiwn.*
- *Byddwn yn diweddaru ac yn adolygu polisïau troseddau amgylcheddol yn seiliedig ar dipio anghyfreithlon, diogelu'r cyhoedd a sbwriel.*



# *Gwastraff Cartrefi: Casgliadau Ymyl y Ffordd i Gartrefi, Gwastraff Swmpus, Hylendid a Safleoedd Dod â Gwastraff*

## Polisi Casglu Ymyl y Ffordd

Tuag at ddiwedd y strategaeth hon ar gyfer 2018-21, bydd y Cyngor yn ailystyried y dulliau cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r gwerth gorau am arian a chanlyniadau cynaliadwy, yn unol â Glasbrint Casgliadau dewisol Llywodraeth Cymru.

- *Byddwn yn sicrhau bod sefyllfa TEEP (Ymarferol yn Dechnegol, Economaidd ac Amgylcheddol) y Cyngor yn cael ei ailystyried yn erbyn Rheoliadau Ailgylchu ac Amgylchedd er mwyn sicrhau ailgylchu cost effeithiol.*

## Casgliadau cartrefi, gan gynnwys casgliadau swmpus a hylendid

Bydd cyfranogiad aelwydydd mewn cynlluniau ailgylchu yn parhau i fod yn hollbwysig er mwyn cyflawni targedau ailgylchu uwch. Bydd ymgysylltu â dinasyddion a chyfathrebu yn allweddol wrth gyrraedd y targedau o 70% neu uwch. Wrth i'r dechnoleg ddatblygu, mae lle i ystyried synwyryddion symudiad mewn biniau yn y dyfodol. Gall hyn gynorthwyo'n gadarnhaol mewn sawl ffordd. Gallai benderfynu'n fanwl gywir faint o wastraff y mae'r Cyngor yn ei gasglu, nifer yr eiddo fesul stryd sy'n cyflwyno mathau penodol o wastraff i'w gasglu, ynghyd â rhoi mewnwelediad manwl i weld p'un a gasglwyd bin ai peidio (ble'r adroddwyd ei fod wedi ei fethu).

- *Wrth i dechnoleg ddod i'r amlwg, byddwn yn cynnal briff gwylio ar gyfleoedd marchnad ac yn cyflwyno cynllun busnes ar yr adeg briodol.*

Wrth i'r ddinas barhau i dyfu, bydd angen ailgydbwyso'r diwrnod casglu. Wrth i ddatblygiadau newydd gael eu hadeiladu, mae angen ailgydbwyso'r rowndiau casglu (faint o eiddo a wasanaethir fesul cerbyd) a gall hyn olygu gorfod newid y diwrnodau casglu ar gyfer wardiau ac/neu eiddo. Fel arfer mae angen 'ailbarthu' diwrnodau casglu bob pum mlynedd.

- *Byddwn yn archwilio'r angen i ailbarthu'r diwrnodau casglu, ac argymell camau erbyn 2022.*

O ran casgliadau gwastraff swmpus, mae partneriaeth ailddefnyddio'r Cyngor â Sefydliad Prydeinig y Galon yn caniatáu sgôp i ailddefnyddio eitemau a gesglir o fewn y gwasanaeth gwastraff swmpus.

## Safleoedd Dod â Gwastraff

Mae'r defnydd o safleoedd dod â gwastraff gan y cyhoedd wedi gostwng dros y blynyddoedd. Yn y lleoliad cywir, maent yn dal i fod â lle yn y gymuned.

- *Byddwn yn archwilio manteision safleoedd dod â gwastraff newydd mewn ardaloedd lle y nodwyd galw, gyda ffocws ar gasglu gwastraff gwydr ac ardaloedd adeiladu newydd.*

## *Gwastraff Cartrefi: Canolfannau Ailgylchu*

### Cynlluniau Dychwelyd Ernes

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol i archwilio'r cysyniad o ailsefydlu cynlluniau dychwelyd ernes ar gyfer pecynnu.

- *Byddwn yn gweithio gyda diwydiant a Llywodraeth Cymru i gyfrannu at ddatblygu cynlluniau a fydd yn cynhyrchu ailddefnyddio ac ailgylchu o ansawdd uchel.*

## *Ailgylchu 'symudol' a thipio anghyfreithlon*

Mae'r Cyngor yn parhau i archwilio cyfleoedd ailgylchu ac ystyried mentrau ymgysylltu cymunedol newydd i gynyddu perchnogaeth gwastraff. Mae cynnwys biniau ar y stryd/parciau a biniau sbwriel lleol a sbwriel a gesglir o'r strydoedd gyda hyd at 70% o ddeunyddiau ailgylchadwy. Er bod biniau ailgylchu stryd wedi'u darparu mewn ardaloedd uchel eu defnydd yng nghanol y ddinas, bu'n her sylweddol i annog preswylwyr ac ymwelwyr i ddefnyddio'r biniau'n gywir. Dangosodd ymchwil ddiweddar bod rhaid i'r biniau hynny fod yn amlwg yn wahanol ac wedi'u labelu'n dda iawn gyda negeseuon 'pwnio' cadarnhaol i helpu pawb i'w defnyddio.

- *Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar eu projectau newid ymddygiad cenedlaethol i oresgyn rhwystrau cyfathrebu a chyflenwi ymgyrchoedd lleol, yn ein hardaloedd a'n parciau defnydd uchel, er mwyn i sbwriel ailgylchu gael ei roi yn y biniau sbwriel ailgylchu newydd*
- *Byddwn yn archwilio'r defnydd o'r "theori pwnio" i helpu i ddylanwadu ar arferion pobl, sy'n cynnwys elfennau o'r fath fel dyluniad biniau sbwriel a'u lleoliad.*
- *Byddwn yn cefnogi ac yn hwyluso ailgylchu o gasgliadau sbwriel cymunedol er mwyn cynorthwyo i gynyddu balchder cymunedol a pherchnogaeth o fannau agored.*
- *Cynyddu cefnogaeth ledled y Ddinas i grwpiau gwirfoddol Caru Lle Rydych yn Byw gyda'r dull hwn, a pharhau i wella ailgylchu sbwriel a daflwyd.*

## *Ysgubiadau Stryd*

Bydd y Cyngor yn parhau i wahanu deunydd ailgylchadwy o'i weithrediadau.

- *Byddwn yn gweithio ar welliannau glanhau strydoedd i gynorthwyo i gael gwared â sbwriel o'r ysgubiadau a gasglwyd. Bydd hyn yn lleihau'r symiau o ddeunydd heb ei dargedu y mae'n rhaid ei dynnu o'r broses ailgylchu.*



## *Casgliadau Gwastraff Masnachol*

### Gwasanaethau masnachol

Mae gwasanaethau gwastraff masnachol wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf ac yn ehangu i farchnadoedd newydd; fodd bynnag, gall hyn olygu risgiau i wella perfformiad ailgylchu.

- *Byddwn yn ymgymryd ag ymgyrchoedd ailgylchu wedi'u targedu gan ganolbwyntio ar fusnesau bach i ganolig eu maint. Bydd yr ymgyrchoedd penodol hyn yn cael eu gwerthuso, a chynhyrchir astudiaethau achos i annog busnesau eraill i ailddefnyddio ac ailgylchu cymaint â phosib.*
- *Byddwn yn ehangu'r gwasanaeth sgipiau sy'n tyfu i ddarparu opsiynau deunydd wedi'u targedu. Drwy ddarparu sgipiau un ffrwd, bydd hyn yn annog mwy o ailgylchu yn y ffynhonnell gan gwsmeriaid busnes.*

Eisoes mae tîm Gwasanaethau Masnachol y Cyngor yn cynnig nifer o wasanaethau casglu nwyddau ar wahân i fusnesau. Ehangir y gwasanaethau hyn yn unol â Rheoliadau Datblygu Ailgylchu ac Amgylchedd Cymru (Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 - Rhan 4). Cesglir cardiau, gwydr, pren, rwbel a bwyd ar wahân i gefnogi'r rheoliadau a'r gwaharddiadau tirlenwi. Hefyd ystyrir deunyddiau eraill ar gyfer casgliadau.

- *Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gydymffurfio â rheoliadau a chefnogi busnesau i gydymffurfio â rheoliadau sy'n dod i rym dros oes y strategaeth hon. Bydd y gweithgaredd hwn yn cefnogi mwy o ailddefnyddio, ailgylchu a darparu ailgylchu dolen-gaeedig o safon uchel.*

## *Ailgylchu eilaidd*

### Trosglwyddo Gwastraff a Didoli Eilaidd

Bydd yr orsaf drosglwyddo gwastraff yn Ffordd Lamby yn parhau i ganolbwyntio ar ddidoli'r holl wastraff gweddilliol a gafwyd yno er mwyn tynnu allan unrhyw werth ailgylchu neu ailddefnyddio.

- *Byddwn yn defnyddio didoli eilaidd i dynnu allan unrhyw ddeunyddiau ailgylchadwy sydd wedi'u gwaredu'n anghywir i gyflawni targedau uwch ar gyfer ailgylchu trwy drosglwyddo gwastraff.*

### Gwaredu ac Ôl-Ofal Tirlenwi

Mae lleihau'r gwastraff i'w waredu yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yn ogystal ag yn ofyniad statudol, a bydd yn cael ei gyflawni trwy sicrhau lefelau uwch o ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer o ansawdd uchel. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i leihau gwastraff i'w waredu neu ei drin, trwy gynyddu nifer ac ansawdd ailddefnyddio ac ailgylchu. Gellir cyflawni hyn drwy wella seilwaith, hygyrchedd cyhoeddus ac ymddygiad gyda'r bwriad o gyflawni targedau cenedlaethol ac osgoi cosbau ariannol (am fynd dros ben yr uchafswm targedau ar gyfer gwaredu a/neu driniaeth).

Caewyd y safle tirlenwi yn Ffordd Lamby yn 2017 a dechreuodd y Cyngor gynllun ôl-ofal 60 mlynedd i'r safle. Ar hyn o bryd, mae'r safle'n cael ei ystyried ar gyfer y ddarpariaeth gymunedol orau, sy'n cynnwys gwarchodfa natur a bywyd gwyllt, fferm ynni'r haul a pharc eco-fwyd.

- *Byddwn yn cadw at ein gofynion statudol i warchod a gofalu am y safle tirlenwi yn Ffordd Lamby ac yn archwilio dewisiadau diwedd defnydd ar gyfer y safle.*

### Trefniadau Cyflenwi

Mae rhaglen bolisi pum mlynedd y Cyngor, Uchelgais Prifddinas, yn ymrwymo i gyflenwi dull 'Stryd Gyfan' o gadw strydoedd a mannau cyhoeddus y ddinas yn lân a'u cynnal a'u cadw'n dda. Bydd gwasanaethau cynghorau rheng flaen fel glanhau, priffyrdd, gwastraff a gorfodaeth hefyd yn cael eu halinio a chryfheir y cyfrifoldeb i gymdogaethau trwy ffocws cryfach ar bartneriaethau a gweithio traws-gyfarwyddiaeth. Er mwyn cefnogi'r dull hwn, mae Rhaglen Gyflenwi Uchelgais Prifddinas yn cynnwys sefydlu rhaglen Golygfa Stryd, a fydd yn goruchwylio gweithrediad y Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff 2018-21 ddrafft wedi'i diweddaru.

Bydd yr holl gamau gweithredu a gweithgareddau sydd eu hangen i gyflenwi'r strategaeth hon yn cael eu rheoli a'u tracio trwy'r Bwrdd Rhaglen Golygfa Stryd.

## 7. Risgiau a Heriau

Mae gofyn i Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff 2018-21 ddrafft wedi'i diweddaru liniaru'r risgiau sylweddol a wynebir gan y Cyngor os yw'n methu â chyflenwi'r newidiadau fesul cam gofynnol:

### Cyllid:

- *Efallai y bydd y cyllid Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy mewn perygl ar gyfer cynlluniau nad ydynt yn mabwysiadu methodoleg 'Glasbrint Casgliadau' Llywodraeth Cymru.*
- *Bydd sicrhau marchnadoedd ailgylchu o ansawdd uchel yn cynyddu'r incwm i'r Cyngor ac yn sicrhau'r prisiau marchnad gorau. Fodd bynnag, mae angen buddsoddi arian i gyflawni hyn.*
- *Mae diffyg cyllideb y Cyngor yn golygu bod angen cyfleoedd cynhyrchu incwm pellach, gan gynnwys digwyddiadau proffil uchel, mwy o bwyslais ar ddirwyon am gyflwyno gwastraff yn anghywir a thwf y tîm gwastraff masnachol. Golyga twf gwastraff masnachol y bydd cynhyrchu gwastraff yn cynyddu o 2,000t y flwyddyn (gyda'r costau cysylltiedig ar gyfer prosesu/casglu).*
- *Bydd angen ailgylchu eilaidd (ar ôl didoli) i gwrdd â thargedau ailgylchu yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyllideb wedi'i nodi ar gyfer hyn, felly mae'r Cyngor yn dibynnu ar gronfeydd wrth gefn gwastraff.*



## Methiant i gyrraedd targedau:

- *Os na fyddwn yn cwrdd â thargedau statudol, gallai'r dirwyon fod yn fwy na £10m erbyn 2025.*
- *Gall adferiad economi arwain at gynhyrchu gwastraff oherwydd cynnydd yn y 'gymdeithas wastraffus'.*
- *Nid yw llawer o Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn darparu gwasanaethau gwastraff masnachol; o ganlyniad, mae gan Gaerdydd sefyllfa anghymesur o'i chymharu â pherfformiad ailgylchu'r Cynghorau eraill.*
- *Byddai symud y tunelledd hwn o'n ffigurau Gwastraff Solet Trefol yn gwella ein perfformiad ailgylchu yn sylweddol o +4%.*

## Mwy o alw am wasanaethau:

- *Mae Caerdydd yn un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU. Bydd y CDLl yn darparu 41,415 o anheddau newydd.*
- *Mae poblogaeth Caerdydd wedi codi dros 3,500 bob blwyddyn, gyda rhagamcaniadau swyddogol yn nodi twf parhaus.*
- *Mae nifer cynyddol o ddigwyddiadau proffil uchel yn y ddinas yn arwain at gynhyrchu gwastraff ychwanegol. Golyga rheoli casglu a phrosesu'r gwastraff gostau ychwanegol, ynghyd â mwy o gynhyrchu gwastraff, sy'n risg i'n targedau ailgylchu.*

## Cyfranogiad y cyhoedd:

- *Heb gefnogaeth gan y cyhoedd, bydd perfformiad ailgylchu yn lleihau.*
- *Mae cyflwyno gwastraff yn anghywir yn rhoi pwysau ychwanegol ar ein tîm glanhau, a'r tîm addysg/gorfodi gwastraff.*
- *Canfyddiad y cyhoedd o ostyngiad yng ngwasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys ailgylchu a chasgliadau gwastraff.*
- *Canfyddiad y cyhoedd o gyfraniadau Treth y Cyngor yw ei bod yn ariannu elfen sylweddol o wasanaethau ailgylchu a gwastraff, tra mai dim ond 2% yw mewn gwirionedd.*

## Risg Newid:

- *Mae angen ystyried marchnadoedd ailgylchu, a sut y maent yn newid ar raddfa fyd-eang. Er enghraifft, yn 2015/16 nid oedd unrhyw farchnad i dderbyn gwydr am gyfnod o ddau fis.*
- *Gofynion deddfwriaethol pellach.*
- *Mae angen cefnogaeth sylweddol o ran adnoddau a chyfathrebu i newid ymddygiad pobl, ac annog ymrwymiad i gynlluniau/polisïau newydd.*
- *Mae ymrwymiad parhaus a mewnol i newid yn hanfodol er mwyn i'r newidiadau fod yn effeithiol ar draws y ddinas.*



# STRATEGAETH RHEOLI GWASTRAFF AILGYLCHU CYNGOR CAERDYDD – STRATEGAETH DDRAFFT WEDI'I DIWEDDARU 2018-21

GWEITHIO DROS GAERDYDD, GWEITHIO GYDA'N GILYDD.

CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD